# SL(6)701 – [Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026]

## Cefndir a Diben

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth ynghylch yr isafbris y mae alcohol i'w gyflenwi amdano yng Nghymru i berson yng Nghymru i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y niwed y mae yfed gormod o alcohol yn ei achosi i iechyd pobl ac i'r gymdeithas.

Mae adran 22(1) o'r Ddeddf yn darparu bod y darpariaethau ynghylch yr isafbris a nodir yn y Ddeddf yn peidio â chael effaith ar ôl 6 blynedd o'r dyddiad y daw adran 2 o'r Ddeddf i rym, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau sy'n darparu fel arall. Daeth adran 2 o'r Ddeddf i rym ar 2 Mawrth 2020.

Gan ddibynnu ar bwerau yn adran 22(2) o'r Ddeddf, mae'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso'r diddymiad hwnnw yn adran 22(1). Effaith y Rheoliadau hyn yw y bydd darpariaethau'r isafbris a nodir yn y Ddeddf yn parhau mewn grym.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraff 2.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn egluro fel a ganlyn:

*"Mae'r offeryn hwn wedi ei lunio heb ddefnyddio'r feddalwedd newydd ar gyfer offerynnau statudol Cymru. Mae'n bosibl felly y bydd angen gwneud mân welliannau i'r fformadu yn ystod y broses gofrestru os caiff y ddeddfwriaeth hon ei chymeradwyo gan y Senedd a'i gwneud gan Weinidogion Cymru."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.